

Tasg Hawliau'r Haf - Haf o Hwyl

Eich Tasg Hawliau yw cynllunio gweithgaredd Haf o Hwyl ar gyfer eich grŵp neu eich cymuned.

Gwyliwch y fideo yma gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, i gael rhagor o wybodaeth am yr **Haf o Hwyl**.

Gallai eich gweithgaredd Haf o Hwyl fod yn **ddigwyddiad bach** neu'n **ddiwrnod cyfan o weithgareddau**. Ddylai eich gweithgaredd ddim costio llawer o arian na golygu bod angen cyfarpar newydd.


Gweithiwch gydag arweinydd eich grŵp / eich gweithiwr ieuenctid i benderfynu beth fyddai'n gweithio orau i'ch grŵp chi.



Yn y dasg hon byddwch chi'n meddwl am wahanol hawliau plant:




Erthygl 2 – Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn



Erthygl 12 – Mae gen i hawl i gael gwrandawriad, ac i gael fy nghymryd o ddifri



Erthygl 15 – Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



Erthygl 29 – Mae gen i hawl i fod y gorau galla i fod



Erthygl 31 – Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae

Cyn i chi ddechrau cynllunio:

Meddyliwch am unrhyw rwystrau posibl i gynnal gweithgaredd.

Meddyliwch am sut gallwch chi gynnwys pawb yn y gweithgaredd.

Mae **3 rhan** i'n pecyn gweithgaredd i'ch helpu i gynllunio: :

Rhan 1: Casglu syniadau

Rhan 2: Cynllunio

Rhan 3: Cynnal eich Digwyddiad Haf o Hwyl



Rhan 1: Casglu Syniadau

Efallai byddwch chi am ofyn i aelodau eraill o'ch grŵp neu eich cymuned **roi eu syniadau nhw i chi ar gyfer gweithgaredd Haf o Hwyl.**

Gallech chi weithio gydag arweinydd eich grŵp / eich gweithiwr ieuentid i feddwl sut gallech chi wneud i hyn ddigwydd yn eich grŵp. Gallai hynny gynnwys:

- Cynnal pleidlais
- Gofyn i aelodau o'ch grŵp lenwi arolwg ar-lein
- Gweithio gyda grwpiau eraill yn eich ardal leol



Rhan 2: Cynllunio

Ar ôl i chi gasglu syniadau gan eich cyfoedion, mae angen i chi ddechrau cynllunio eich digwyddiad.

Byddai'n syniad da cyflwyno eich syniadau cychwynnol i arweinydd eich grŵp/i'ch gweithiwr ieuenctid, i wneud yn siŵr ei fod yn bosib.

Dyma rai syniadau ar gyfer sut gallwch chi rannu eich syniadau cychwynnol:

- Paratoi PowerPoint
- Pitsio esgaladur – dyma lle rydych chi'n cyflwyno eich syniadau mewn llai na 2 funud.

Bydd arweinydd eich grŵp/eich gweithiwr ieuenctid yn gallu eich helpu i sicrhau bod y gweithgareddau'n gallu digwydd, ac yn eich helpu i gysylltu ag unrhyw un angenrheidiol.

Defnyddiwch ein taflen gynllunio i'ch helpu i feddwl am y manylion terfynol.



Rhan 3: Cynnal eich digwyddiad Haf o Hwyl

Rydych chi wedi gwneud yr holl waith caled, a chynllunio digwyddiad cyffrous ar gyfer eich grŵp/cymuned leol. .

Rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n mwynhau.

Cofiwch

Rhannwch eich lluniau ar Twitter gan ddefnyddio **#HafHwyl** fel ein bod ni'n gallu gweld eich holl syniadau a gweithgareddau difyr.



Gweithgaredd Ychwanegol

Llyfr Erthygl 31 Haf o Hwyl

Rydyn ni'n creu e-lyfr (llyfr gallwch chi edrych arno ar gyfrifiadur), i rannu rhai syniadau difyr ar gyfer gêmâu a gweithgareddau y gallai plant a phobl ifanc eu gwneud yn ystod Gwyliau'r Haf.

Os hoffech chi gymryd rhan, gofynnwch i'r disgyblion yn eich **ysgol chi lenwi'r daflen** a'i hanfon yn ôl aton ni drwy e-bost i post@complantcymru.org.uk neu drwy ddefnyddio **ein ffurflen ar-lein**.

Byddwn ni'n cyfuno eich holl syniadau mewn un llyfr ac yn ei lansio ar ein gwefan.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales